National Numeracy Day

Cefnogwr Sefydlu: KPMG

# National Numeracy Day

## Sut i gynnal sesiynau Big Number Natter

The Big Number Natter

**Nodiadau i'r trefnydd**

Diolch i chi am ymuno â'r Big Number Natter am National Numeracy Day. Rydym wrth ein boddau y byddwch chi'n cynnal sesiwn yn eich sefydliad. Rydym wedi cynnig dau opsiwn isod – sesiwn Big Number Natter (mwy na 15 munud) neu Quick Number Natter (llai na 15 munud).

**Yn gyntaf, dewiswch y math o sgwrs sy'n addas i'ch sefydliad neu'ch tîm/timau chi.**

### Opsiwn 1: Cynnal sesiwn, neu sesiynau, Big Number Natter (mwy na 15 munud)

**Hyd:** 15-30 munud +
**Sut i:** Defnyddiwch y dec o sleidiau *Ymunwch â'r sgwrs: Eich sesiwn Number Natter chi* sydd wedi'i gynnwys yn eich pecyn cymorth chi i gynnal sesiwn wedi'i threfnu ar gyfer eich sefydliad cyfan, neu mewn timau neu grwpiau llai. Gweler y canllaw cam wrth gam ar y tudalennau canlynol i'ch helpu i greu sesiwn lwyddiannus a hwyl.

Cynlluniwyd y sesiynau i weithio heb yr angen am baratoi o flaen llaw. I helpu i'w gwneud hi mor gyflym a hawdd â phosib, efallai y byddwch chi am ddarllen y nodiadau isod sy'n mynd gyda'r dec o sleidiau.

### Opsiwn 2: Beth am Quick Number Natter (llai na 15 munud)

**Hyd:** 5-15 munud
**Sut i:** Sut i: Gallwch ofyn i bawb yn eich sefydliad i gael quick number natter unrhyw bryd yn ystod y dydd gan ddefnyddio'r *pwyntiau trafod Number Natter cyflym yn eich pecyn cymorth*.

Er enghraifft, gall pobl:

- Ychwanegu'r Big Number Natter fel eitem agenda neu Unrhyw Fusnes Arall i gyfarfod neu sesiwn bresennol.
- Sbarduno sgyrsiau byr, anffurfiol yn ystod egwyl coffi, yn yr ystafell staff neu wrth y ffynnon dŵr!
- Dechreuwch linyn cyfathrebu mewnol yn postio ymatebion i'r pwyntiau trafod.

# National Numeracy Day

# Canllaw cam wrth gam

**Trefnu eich sesiynau Big Number Natter**

Bydd y nodiadau isod yn eich cefnogi wrth gynnal sesiynau Big Number Natter gan ddefnyddio'r dec o sleidiau *Ymunwch â'r sgwrs: Eich sesiwn Number Natter* chi wedi'i gynnwys yn eich pecyn cymorth.

## 1. Pryd a ble:

Gallwch osod amser a lleoliad ar gyfer eich sesiwn Big Number Natter. Gallai hyn fod wyneb yn wyneb yn eich swyddfa neu'ch lleoliad sefydliadol, neu'n rhithwir dros Microsoft Teams, Zoom etc.
Gellir cynnal sesiynau unrhyw bryd ym mis Mai, gyda ffocws ar National Numeracy Day.

## 2. Dywedwch wrth bobl beth sy'n digwydd a beth i'w ddisgwyl:

Anfonwch wahoddiadau calendr ar gyfer eich sesiwn/sesiynau penodol at gyfranogwyr.
Gallwch gopïo a gludo'r gwahoddiad awgrymedig isod, neu mae croeso i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

> **Dyma wahoddiad i Big Number Natter [nodwch enw'r sefydliad] ar gyfer National Numeracy Day!**
>
> Y mis Mai hwn, i nodi National Numeracy Day, byddwn yn cymryd rhan mewn sgwrs genedlaethol am rifau. Byddwn yn ymuno â channoedd o sefydliadau ledled y DU, yn dod â phobl ynghyd i gael sgwrs am rifau. Ni fyddwn yn gwneud mathemateg yn y sesiwn hon. Y syniad yw ei gwneud siarad am fathemateg ychydig yn llai brawychus a gwneud gwella rhifedd ychydig yn haws.
>
> Boed yn dda neu'n ddrwg, mae gan bawb rywbeth i'w ddweud am fathemateg! Sdim ots beth yw eich teimladau am fathemateg – rydym am glywed eich stori chi!
>
> **Ymunwch â ni yn [nodwch amser, dyddiad a lle/dolen]**

## 3. Hyrwyddwch y digwyddiad o flaen llaw:

P'un a ydych yn gweithio ar y safle neu o bell, defnyddiwch y lle sydd gennych i hyrwyddo'r sesiwn/sesiynau. Mae **poster sesiwn Big Number Natter** yn eich pecyn cymorth. Gallwch ei ychwanegu at hysbysfyrddau real neu rithwir a chylchlythyron mewnol etc. Nodwch y dyddiad/amser cywir a'r manylion ystafell/dolen ymuno. Gallwch ddefnyddio'r poster hwn i greu arwyddion ystafell ar gyfer y dydd hefyd. Rhowch sicrwydd bod y rhain yn sesiynau i bawb – nid dim ond pobl sy'n hoffi gweithio gyda rhifau – a fydd dim gwneud mathemateg!

## 4. Paratoi ar gyfer eich sesiynau

Cynlluniwyd y sesiynau hyn i weithio heb waith paratoi o flaen llaw. Gallwch ddefnyddio'r sleidiau i'ch helpu chi a'ch tîm. Ond efallai y byddwch chi am wneud y canlynol o flaen llaw, yn enwedig os ydych chi'n gwybod bod gennych chi gydweithwyr sy'n bryderus am fathemateg.

- **Darllenwch drwy'r sleidiau i fynd yn gyfarwydd â nhw**
- **Dysgu sut i siarad am rifau:** Efallai y bydd hi'n fuddiol i chi ddarllen ein canllawiau ar gyfer siarad am fathemateg, a ysgrifennwyd gan Beth Barnes, sy'n Uwch-swyddog Hyfforddi yn National Numeracy. Gall hyn eich helpu i fod yn ymwybodol o anghenion pawb.

National Numeracy Day

Cefnogwr Sefydlu: KPMG

# National Numeracy Day
# Canllaw cam wrth gam

## 5. Pethau i'w cofio yn ystod eich sesiwn

- Gofynnwch gwestiynau a gwrandewch ar yr atebion.
- Rhaid cofio bod meddyliau pawb yn ddilys, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol am rifau.
- Byddwch yn amyneddgar ac yn garedig.

## 6. Ar ôl y sesiwn

**Byddwch yn gweld cyfres o awgrymiadau 'cam nesaf' ar y sleidiau. Anogwch eich pobl i:**

- Fynd i **wefan National Numeracy Day** i gael llawer o adnoddau am ddim iddyn nhw a'u teuluoedd.
- Anogwch bawb i roi cynnig ar y **National Numeracy Challenge** i ddatblygu eu sgiliau rhifol.

Gallwch gopïo a gludo'r e-bost awgrymedig isod, neu mae croeso i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

**Diolch am ymuno â'n sesiwn Big Number Session**

Rhannwyd llawer o brofiadau a safbwyntiau gwych, a gobeithio bod y drafodaeth wedi bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi.

Nid yw National Numeracy Day wedi dod i ben eto! Fel a soniwyd yn y sesiwn, isod ceir ffyrff gwych y gallwch chi barhau i fod yn rhan o'r ymgyrch er mwyn eich helpu chi a'ch teulu i deimlo'n dda am rifau:

**1) Ymunwch â'r sgwrs Big Number Natter ehangach**
Y stori y tu ôl i'ch rhif lwcus chi, awgrymiadau euraidd ar gyfer cael bargen, gwneud cyfrifon yn eich gyrfa, neu helpu plant gyda gwaith cartref... caru neu gasáu mathemateg, ychwanegwch eich safbwynt chi i'r sgwrs ehangach. Defnyddiwch y daflen 'Ideas for Number Nattering on social media' os bydd angen ysbrydoliaeth arnoch.

Mewn timau neu ar eich pen eich hun, rhannwch eich straeon fideo, eich postiadau ysgrifenedig a'ch lluniau Big Number Natter ar:
- Ein mewnrwyd [Ychwanegu dolen i sgwrs/sianel neu ragor o wybodaeth].
- Ein cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #BigNumberNatter. Cofiwch ein tagio fel y gallwn ni rannu eich cyfraniadau gwych! [Ychwanegu dolenni cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad]

**2) Ewch i'r wefan** a chael llawer o adnoddau defnyddio am ddim i oedolion a phlant: www.nationalnumeracy.org.uk/numeracyday

**3) Rhowch gynnig ar y National Numeracy Challenge.** Gall unrhyw un dros 13 oed wirio eu sgiliau rhifedd a dechrau gwella mewn 10 munud, ar ffôn symudol neu unrhyw ddyfais, unrhyw bryd, unrhyw le. Cofrestrwch yma: www.nationalnumeracy.org.uk/challenge/

National Numeracy Day

Cefnogwr Sefydlu: KPMG

## National Numeracy Day

# Canllaw cam wrth gam

The Big Number Natter

### 7. Rhannwch eich straeon, clipiau fideo neu luniau Big Number Natter

- **Y tu mewn i'ch sefydliad:** Rhannwch eich Big Number Natters drwy fewnrwyd, cylchlythyr, Yammer neu rwydweithiau eraill eich sefydliad – defnyddiwch glipiau fideo, straeon ysgrifenedig, lluniau a grëwyd mewn timau neu'n unigol.
- **Y tu allan i'ch sefydliad:** Ymunwch â'r sgwrs ehangach – rhannwch eich fideos ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio #BigNumberNatter.

### 8. Rhestr o'ch Adnoddau Big Number Natters, ar gael yn eich pecyn cymorth

1. Y canllaw sut i hwn
2. Ymunwch â'r sgwrs: Eich sleidiau sesiwn Number Natter – i sesiynau 15–30 munud
3. Pwyntiau trafod Number Natter cyflym – ar gyfer sgyrsiau anffurfiol sy'n llai na 15 munud
4. Poster Big Number Natter i hyrwyddo eich sesiynau
5. Syniadau ar gyfer Number Natters ar y cyfryngau cymdeithasol – fel rhan o'ch neges ddilynol ar ôl y sesiwn.

